**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 9 Mai 2018 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | T J Hennegan | C A Holley |
| P R Hood-Williams | J W Jones | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|

**Mynychwyr eraill**

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Penny Gruffydd | Swyddog PolisÏau Cynaliadwyedd |
| Bethan Hopkins | Swyddog Craffu |
| Suzy Richards | Swyddog PolisÏau Cynaliadwyedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy):
Aelodau Cyfetholedig(wyr): Martyn Waygood
Mynychwyr eraill:

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

2 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Dim

3 **Cofnodion.**

Cymeradwywyd

4 **Y diweddaraf am y Cynllun Lles a'r Camau Nesaf**

- Daeth Suzy Richards a Penny Gruffydd i gyfarwyddo'r panel ar y Cynllun Lles a'r camau nesaf

- Mae'r cynllun yn strategaeth drosgynnol a defnyddir cynlluniau gweithredu er mwyn ei gyflawni
- Caiff rhai themâu (megis y Blynyddoedd Cynnar) eisoes eu gweithredu a chyflwynwyd cynlluniau a gweithredoedd
- Mae rhai themâu'n newydd felly mae angen eu datblygu (megis Cymunedau Cryfach)
- Cyflawnir cynlluniau gweithredu erbyn yr haf
- Mae angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fonitro'r gwahaniaeth a wneir
- Efallai mai 'mesur cynnydd' yw'r ffordd orau i olrhain perfformiad oherwydd ni cheir dangosyddion perfformiad i'w defnyddio
- Ceir amcanion tymor byr, tymor canolig a thymor hir ar gyfer pob cam
- Rhoddir terfyn amser 3-4 mlynedd i'r prosiectau hyn o ran eu gweithredu a'u cyflawni
- Mae Cynulliad Cymru'n annog symud i ffwrdd o'r dangosyddion perfformiad safonol. Hoffai weld ffyrdd ansoddol o adrodd ar ganlyniadau megis buddsoddiadau, ymrwymiad i gynlluniau a straeon llwyddiant
- Bydd grŵp craidd y BGC yn olrhain y cynllun ac yn hwyluso integreiddio
- Bydd grŵp cynllunio BGC a grŵp partneriaeth BGC yn cyflwyno adolygiad a chaiff arweinwyr eu neilltuo i weithredoedd penodol
- Bydd gan bob partner sy'n rhan o hyn gynulleidfa darged ac mae pob llwyddiant bach yn cyfrannu at gynnydd cyffredinol
- Mae Llywodraeth Cymru, swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Swyddfa Archwilio Cymru'n ystyried ffyrdd eraill o werthuso
- Yr ymagwedd 'newid mwyaf arwyddocaol' yw edrych ar weithredoedd a dysgu ohonynt
- Gofynnwyd i bob sefydliad partner ddefnyddio'i systemau cynnwys ei hun i gael adborth a rhoi mewnbwn yn ystod proses ymgynghori ar y Cynllun Lles
- Mae thema 'yr economi' yn codi trwy gydol y cynllun ac mae wedi'i mewnosod yn y gweithredoedd
- Mae gan y Fargen Ddinesig strwythur llywodraethu penodol felly caiff ei chefnogi, ond nid yw'n ymddangos fel amcan annibynnol yn y cynllun
- Caiff llwyddiant ei fesur yn y tymor hir ac ni welir hyn yn syth
- Gall cynlluniau tymor hir fod yn anodd eu mesur oherwydd ni cheir yr effaith fwriadol erbyn terfyn yr amser
- Mae BGC yn gweithio trwy waith partneriaeth o ewyllys da, ac mae perygl y byddai gorfodi sefydliadau i fonitro dangosyddion perfformiad yn golygu y byddant yn llai awyddus i gymryd rhan
- Ceir pethau sy'n hawdd eu cyflawni yn y cynllun gweithredu (e.e. creu tîm i fynd i'r afael â mater penodol) felly ceir gweithredoedd go iawn yn y broses
- Roedd y panel yn pryderu y byddai'n anodd mesur llwyddiant heb ddangosyddion perfformiad
- Caiff perfformiad cydweithredol ei fesur hefyd gan Swyddfa Archwilio Cymru felly ceir monitro perfformiad anuniongyrchol yn y modd hwn
- Ceir hefyd gyfle i fesur cynnydd pan gynhelir yr asesiad lles nesaf
- Mae rhai o'r amcanion yn cyfeirio'n ôl at y Cynllun Un Abertawe, ond cafodd rhai eraill megis Cymunedau Cryfach a Gweithio gyda Natur eu nodi gan randdeiliaid felly maent yn newydd

- Hoffai'r panel gwrdd â'r swyddogion perthnasol eto mewn 6 mis ar ôl cyhoeddi'r cynllun gweithredu i'w adolygu

5 **Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Chraffu - Arweiniad**

- Darllenodd y panel adroddiad ar rwymedigaethau ac arweiniad i'r panel a nodwyd yn yr adroddiad gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus ar ran Llywodraeth Cymru
- Roedd hefyd yn cynnwys nodyn atgoffa am y Pum Ffordd o Weithio a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

6 **Adolygiad Diwedd Blwyddyn**

- Myfyriodd y panel ar yr hyn maent wedi ei gyflawni'r flwyddyn hon a'r hyn aeth yn dda
- Y flwyddyn nesaf bydd amserlen fwy penodol yn canolbwyntio ar gyfarfodydd gydag aelodau a sefydliadau craidd sydd wedi dechrau cyflawni gwaith yn dilyn yr amcanion
- Bydd hefyd sesiwn gychwynnol a fydd yn canolbwyntio ar drefniadau llywodraethu'r bwrdd

7 **Cynllun Gwaith 2017 - 2018.**

- Cynllun wedi'i gymeradwyo
- Angen trefnu sesiwn ym mis Awst/Medi er mwyn adolygu'r cynlluniau gweithredu

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10 am

**Cadeirydd**